


# Green GEN Tywi Wysg

## Ymgynghoriad cyhoeddus

**Rhaid cyflwyno unrhyw adborth erbyn dydd Gwener 28 Ebrill 2023 fan bellaf.**

### Gweithredu nawr er mwyn helpu i gyflawni ynni gwyrdd, glân i'n tai ac i'n busnesau yng Nghymru.

Fel cenedl, rydyn ni yng nghanol argyfwng hinsawdd ac argyfwng costau byw. Mae ein cyflenwad ynni dan fygythiad oherwydd digwyddiadau ar hyd a lled y byd. Er hyn, mae potensial diddiwedd i ynni adnewyddadwy yng Nghymru - yn enwedig o'r gwynt sy'n chwythu dros ein bryniau a'n mynyddoedd.

Mae Llywodraeth Cymru, y Senedd a chynhyrchwyr ynni wedi bod yn edrych ar ffyrdd o ddatgloi'r potensial hwnnw ers blynyddoedd, ond wedi bod yn rhwystredig oherwydd diffyg grid trydanol cadarn a fydd yn gallu dosbarthu llawer iawn o bŵer.

Mae Green GEN Cymru (Green Generation Energy Networks Cymru) yn gweithredu nawr er mwyn helpu i gyflawni ynni gwyrdd, glân i'n tai ac i'n busnesau drwy ddatblygu'r rhwydwaith ynni yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng ynni ac argyfwng yr hinsawdd, yn ogystal â sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu byw bywydau modern gan ddefnyddio trydan, heb fod yn rhy ddibynnol ar danwydd ffosil.

Mae Green GEN Cymru, sy'n rhan o Grŵp Ynni Bute, wedi'i leoli yng Nghymru ac mae ganddo dynesiad Gymreig unigryw. Bydd ein rhwydwaith yn cael ei gynllunio yng Nghymru, ar gyfer Cymru, a byddwn yn ei gyflawni heb ddefnyddio unrhyw arian cyhoeddus.

Bydd Green GEN Tywi Wysg yn cysylltu Parc Ynni Nant Mithil Bute Energy â'r grid cenedlaethol. Bydd yn cynhyrchu tua 237MW (megawat) o ynni gwyrdd, glân yn ardal Fforest Glud. Yn y dyfodol, bydd prosiectau ynni adnewyddadwy eraill hefyd yn gallu cysylltu â'r grid cenedlaethol, gan leihau faint o seilwaith ychwanegol sydd ei angen.

Cynnig Green GEN Tywi Wysg yw cael llinell uwchben cylched dwbl 132kV newydd - a fydd i ddechrau yn cysylltu Parc Ynni Nant Mithil â'r is-orsaf newydd arfaethedig wrth ymyl llinell trosglwyddo 400kV presennol y National Grid rhwng Caerfyrddin a Phont Abraham.

Rydyn ni eisiau clywed eich safbwyntiau chi i'n helpu i ddatblygu ein cynigion. Rhowch wybod i ni drwy lenwi'r ffurflen adborth hon, neu sganiwch y cod QR i fynd i'n gwefan **www.greengencymru.com** lle cewch chi hefyd ragor o wybodaeth am y prosiect a chyflwyno eich adborth ar-lein.

# Newid hinsawdd a'n cyflenwadau ynni

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?
(Does dim rhaid llenwi'r adran hon)

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gan ynni adnewyddadwy rôl bwysig yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd | | | | | |
| Byddai cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn ein gwneud yn llai dibynadwy ar ynni o dramor ac yn helpu i sicrhau cyflenwad ynni diogel i Gymru yn y dyfodol | | | | | |
| Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn cael eu dal yn ôl oherwydd diffyg seilwaith grid i'w cysylltu â rhwydweithiau pŵer | | | | | |
| Rwy'n cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy yn fy ardal leol | | | | | |

# Green GEN Tywi Wysg: ein llwybr rydyn ni'n ei ffafrio

Wrth weithio gyda'n hymgynghorwyr amgylcheddol, rydyn ni wedi nodi coridorau tir lle gallem osod y llwybr llinell uwchben, ac wedi edrych ar sut gall pob un effeithio ar gymunedau lleol, tirwedd a golygfeydd, bioamrywiaeth, coedwigaeth a threftadaeth ddiwylliannol, perygl llifogydd a defnyddiau tir eraill.

Yna, roeddem ni wedi dewis y coridor rydyn ni'n ei ffafrio ar gyfer Green GEN Tywi Wysg ac wedi nodi'r llwybrau opsiynol posibl o fewn y coridor hwnnw. Yn dilyn ymchwil pellach, rydyn ni wedi dewis y llwybr rydyn ni'n ei ffafrio yn y coridor hwnnw er mwyn codi'r mater mewn ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r llwybr rydyn ni'n ei ffafrio yn osgoi ac yn ceisio lleihau'r effeithiau posib ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a thirweddau sensitif eraill, ac ni fydd angen llawer o seilwaith newydd.

Rydyn ni o'r farn bod y llwybr hwn yn cyflawni'r cydbwysedd rhwng ein gofynion technegol a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau treulio eu hamser yn yr ardal.

Rydyn ni'n ymwybodol y gall seilwaith newydd fod yn aflonyddgar i gymunedau. Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i achosi cyn lleied â phosibl o aflonyddwch i'r amgylchedd ac i'r sawl sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau gweithgareddau hamdden yn gyfagos i'n cynigion.

GREEN GEN CYMRU

1. **A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y broses wnaethom ni ei dilyn wrth ddewis y llwybr rydyn ni'n ei ffafrio?**

2. **A oes gennych chi unrhyw sylwadau am y llwybr rydyn ni'n ei ffafrio ar gyfer y llinell uwchben, neu am y dewisiadau eraill wnaethom ni eu hystyried? Rydyn ni wedi rhannu'r llwybr rydyn ni'n ei ffafrio i mewn i bum adran er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd.**

Nodwch i ba adran y mae eich ymatebion yn berthnasol (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- ☐ Adran 1: Parc Ynni Nant Mithil i Lanfair-ym-Muallt
- ☐ Adran 2: Llanfair-ym-Muallt i Langamarch
- ☐ Adran 3: Llangamarch i Lanymddyfri
- ☐ Adran 4: Llanymddyfri i Landeilo
- ☐ Adran 5: Llandeilo i Landyfaelog
- ☐ Y llwybr cyfan

# Green GEN Tywi Wysg: ein llwybr rydyn ni'n ei ffafrio

**3. Byddwn yn cynnal asesiadau pellach i'n helpu i benderfynu ar ble gallem leoli'r peilonau o fewn y llwybr rydyn ni'n ei ffafrio. A oes gennych chi unrhyw nodweddion, awgrymiadau neu fesurau lliniaru penodol yr hoffech i ni eu hystyried wrth i ni ddatblygu ein cynigion?**

Nodwch i ba adran y mae eich ymatebion yn berthnasol (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- ☐ Adran 1: Parc Ynni Nant Mithil i Lanfair-ym-Muallt
- ☐ Adran 2: Llanfair-ym-Muallt i Langamarch
- ☐ Adran 3: Llangamarch i Lanymddyfri
- ☐ Adran 4: Llanymddyfri i Landeilo
- ☐ Adran 5: Llandeilo i Landyfaelog
- ☐ Y llwybr cyfan

# Cronfa Budd Cymunedol

GREEN GEN CYMRU

Mae Bute Energy yn sefydlu Cronfa Budd Cymunedol a fydd yn buddsoddi miliynau o bunnoedd bob blwyddyn mewn cymunedau lleol. Bydd y cyllid yn cael ei roi gan Barciau Bute Energy sy'n cysylltu â Green GEN Tywi Wysg.

Bob blwyddyn, bydd Bute Energy yn talu £7,500 fesul MW o gapasiti sydd wedi'i osod fel rhan o'r dull unigryw hwn. Bydd yr arian hwnnw yn cael ei rannu rhwng y cymunedau sydd yn agos i'r Parciau Ynni, yn ogystal â'r cymunedau sydd wrth ymyl y llwybrau grid.

Bydd tîm Budd Cymunedol Bute Energy yn siarad â phobl a mudiadau lleol am y prosiectau, y grwpiau a'r gwasanaethau maen nhw'n rhan ohonynt, yn ogystal â sut y gallwn ni helpu. Rhowch wybod i ni am bwy sy'n gwneud gwaith gwych yn eich ardal chi er mwyn i ni gysylltu â nhw. Rydyn ni eisiau bod yn gymdogion da ac yn rhan o gymuned ffyniannus.

## 4. Beth hoffech chi weld yn cael ei wneud yn eich ardal chi gyda'r Gronfa Budd Cymunedol?

# About this consultation

## 5. Sut clywsoch chi am yr ymgynghoriad?

- [ ] Taflen
- [ ] y cyfryngau
- [ ] y cyfryngau cymdeithasol
- [ ] arall

**A oedd y wybodaeth yn ddefnyddiol, a pha wybodaeth bellach a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol?**

## 6. A wnaethoch chi gymryd rhan mewn digwyddiad ymgynghori?

- [ ] Do
- [ ] Naddo

**Os felly, pa ddigwyddiad?**

- [ ] Maes Sioe Frenhinol Cymru
- [ ] Llanymddyfri
- [ ] Llandeilo
- [ ] Penybont
- [ ] Llandyfaelog
- [ ] Gweminar ar-lein

## 7. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ystyried?

# Amdanoch chi

GREEN GEN CYMRU

Teitl (Mr. Ms. Mrs. ac ati).

Enw cyntaf*: Cyfenw*:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Rhif ffôn:

E-bost (os hoffech chi gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect):

Ystod oedran: ☐ 18 neu iau ☐ 19-34 ☐ 35-50 ☐ 51-65 ☐ dros 65

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad? ☐ Ydw ☐ Nac Ydw

Os felly, pa sefydliad?

☐ Ticiwch yma os hoffech chi gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein cynigion drwy e-bost

# Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Byddai Green GEN Cymru yn ddiolchgar pe baech chi'n ateb y cwestiynau cydraddoldeb ac amrywiaeth canlynol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydyn ni'n ei chael er mwyn ein helpu i ddeall a yw ein hymgynghoriad wedi bod yn ddefnyddiol i bobl o gefndiroedd gwahanol ac i bobl â gofynion penodol.

Efallai y byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r canlyniadau, ond ni fydd unrhyw wybodaeth am unigolion yn cael ei datgelu.

Os ydych chi'n cytuno i ddarparu gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth, mae modd i chi dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd. I dynnu eich manylion yn ôl, cysylltwch â ni drwy e-bost ar **info@greengentowyusk.com.** Os dymunwch chi gael copïau papur o'r dogfennau hyn, neu eich bod eu hangen mewn unrhyw ffurf arall, cysylltwch â ni drwy'r manylion ar waelod y dudalen hon (efallai bydd yn rhaid codi ffi am argraffu).

## 8. Pa ryw ydych chi?

☐ Gwryw ☐ Benyw ☐ Anneuaidd ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

## 9. Ydych chi'n ystyried bod gennych chi anabledd?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

## 10. Sut byddech chi'n disgrifio eich cefndir ethnig?

☐ Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu ☐ Arabaidd ☐ Asiaidd ☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

☐ Gwyn ☐ Cymysg neu grwpiau aml-ethnig ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Grŵp ethnig arall (nodwch)

## 11. Beth yw eich oedran chi?

☐ Dan 13 ☐ 13 – 20 ☐ 21 – 50 ☐ 51 – 75 ☐ 76+ ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

# Diolch yn fawr

GREEN GEN CYMRU

Mae eich safbwyntiau chi yn bwysig wrth i ni ddatblygu ein cynigion. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cysylltwch â ni:

Gwefan: **www.greengentowyusk.com**

E-bost **info@greengentowyusk.com**

Post: Gallwch chi anfon llythyr atom ni yn rhad ac am ddim drwy **FREEPOST GREEN GEN TYWI WYSG**
(nid oes angen stamp ar gyfer cyfeiriad pellach)

Ffôn: Gallwch chi ein ffonio yn rhad ac am ddim ar **0800 3777 339**

# Datganiad GDPR

Mae Green GEN Cymru (is-gwmni i Bute Energy) wedi ymrwymo i ddiogelu eich manylion personol chi. Pan fyddwch chi'n darparu gwybodaeth o'r fath, mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i ddefnyddio eich gwybodaeth yn unol â'r holl ddeddfau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu data personol, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR).

## Sut bydd Green GEN Cymru yn defnyddio gwybodaeth rydyn ni'n ei chasglu amdanoch chi?

Byddwn yn defnyddio eich data personol a gasglwyd o'r ymgynghoriad hwn ar gyfer nifer o ddibenion, gan gynnwys y canlynol:

- dadansoddi eich adborth am yr ymgynghoriad
- cynhyrchu Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio, yn seiliedig ar ein dadansoddiadau o'r ymatebion (ni fydd unigolion yn cael eu hadnabod yn yr Adroddiad)
- ysgrifennu atoch chi gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r ymgynghoriad ac am unrhyw ddatblygiadau os ydych chi wedi dewis cael y diweddariadau hyn
- cael y cofnodion diweddaraf wrth gyfathrebu ag unigolion a sefydliadau

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi wedi'i chynnwys yn y ffurflen hon yn cael ei defnyddio gan (neu ar gael i) y derbynwyr canlynol er mwyn cofnodi, dadansoddi ac adrodd ar yr adborth rydyn ni'n ei gael:

- Green GEN Cymru
- Bute Energy (darparwr gwasanaethau datblygu i Green GEN Cymru)
- PEDW (a fydd yn ystyried ein cais am ganiatâd i adeiladu Green GEN Tywi Wysg - bydd unrhyw fanylion sy'n cael ei gyhoeddi fel rhan o'r broses hon yn gyfrinachol)
- Gweinidogion Cymru
- ein cynghorwyr cyfreithiol
- ymgynghorwyr sy'n gweithio ar brosiect Green GEN Tywi Wysg.